WYTHNOS ELUSENNAU CYMRU | WELSH CHARITIES WEEK

Noddir gan:

utility aid

Pecyn Ymgyrchu

Cyflwyniad

Gwna dy ran a newid bywydau.

Mae Wythnos Elusennau Cymru yn ôl! Fe'i cynhelir rhwng 9 a 13 Chwefror 2026 yn ei gartref newydd blynyddol, ail wythnos mis Chwefror.

Diben yr wythnos hon yw cydnabod gwaith elusennau, mentrau cymdeithasol, mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol a gwirfoddol yng Nghymru.

Mae elusennau nid yn unig yn achubiaeth i'r rhai mwyaf agored i niwed, ond maen nhw hefyd yno i bobl drwy'r cyfnodau da a drwg, yn cymryd camau bach yr olwg sy'n arwain at wahaniaeth mawr.

Trefnwyd gan:

WCVA
CGGC

Ynglŷn â'r pecyn hwn

Yn y pecyn ymgyrchu hwn, byddwch chi'n dod o hyd i syniadau i'ch helpu chi i gymryd rhan yn Wythnos Elusennau Cymru ac adnoddau i'ch helpu i ledaenu'r gair am yr wythnos ar hyd a lled y wlad.

Mae'r holl wybodaeth yn y pecyn ymgyrch hwn ar gael yn Saesneg yn welshcharitiesweek.cymru.

Yn y pecyn ymgyrchu:

- Sut i gymryd rhan
- Negeseuon awgrymedig ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
- Graffigau ac asedau cyfryngau cymdeithasol

Sut i gymryd rhan: Rhoi/Gwirfoddoli/Hyrwyddo

Gwirfoddolwch, rowch rodd neu rhowch floedd i'ch hoff elusen neu grŵp gwirfoddol! Mae digonedd o ffyrdd hawdd o gymryd rhan yn #WythnosElusennauCymru.

1. RHOI

Mae Wythnos Elusennau Cymru yn amser perffaith i'w roi i elusen neu fudiad gwirfoddol. Mae llawer ohonom yn teimlo pwysau argyfwng costau byw ond cofiwch nad oes rhaid iddo fod yn rhodd arian parod. Gallai fod yn fag o ddillad neu eitemau eraill ar gyfer eich siop elusen leol, neu gallech hyd yn oed gyfrannu rhan o'ch amser drwy wirfoddoli (→).

Beth am ddweud wrth y byd am eich rhodd a pham rydych chi wedi'i wneud. Postiwch ddiweddariad gan ddefnyddio #WythnosElusennauCymru ar gyfryngau cymdeithasol.

2. GWIRFODDOLI

Defnyddiwch ychydig o'ch amser sbâr i helpu eraill. Mae Wythnos Elusennau Cymru yn amser perffaith i gofrestru a dod yn wirfoddolwr! Os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn wirfoddolwr, beth am fynd draw i wefan Gwirfoddoli Cymru gwirfoddolicymru.net.

Gallwch chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli lle bynnag yr ydych yng Nghymru. Os ydych chi'n gwirfoddoli, p'un ai dyma'ch tro cyntaf neu rywbeth rydych chi wedi'i wneud o'r blaen, rhowch wybod i ni ar y cyfryngau cymdeithasol gyda'r hashnod #WythnosElusennauCymru.

3. HYRWYDDO

Soniwch am elusen neu grŵp gwirfoddol yng Nghymru ar gyfryngau cymdeithasol. Eleni rydym yn eich herio i dynnu sylw at dair elusen yr ydych yn eu hedmygu. Tagiwch nhw ar gyfryngau cymdeithasol a dywedwch wrthym sut mae'r mudiad wedi cael effaith wirioneddol ar eich bywyd chi neu fywyd rhywun sy'n bwysig i chi.

Soniwch amdanyn nhw ar blatfform cyfryngau cymdeithasol o'ch dewis a chofiwch ddefnyddio #WythnosElusennauCymru.

SUT I ROI EICH RHODD

Ewch i wefan neu gyfryngau cymdeithasol eich achos dewisol i weld a oes ganddynt gyfarwyddiadau ar sut i godi arian ar eu rhan (e.e. efallai y bydd ganddynt eu tudalennau rhoi eu hunain neu ddefnyddio Just Giving, Local Giving ac ati). Os ydych chi'n defnyddio Instagram neu Facebook, gwiriwch i weld a yw eich hoff elusen wedi'i sefydlu i dderbyn rhoddion gan ddefnyddio eu hoffer codi arian.

Fel arall, ewch yn syth i un o'r llwyfannau isod i ddod o hyd i achos Cymreig a fyddai'n ddiolchgar am eich cefnogaeth. Os gallwch, ceisiwch ddewis cangen leol i sicrhau bod eich rhodd yn cefnogi gweithredu yma yng Nghymru.

- JustGiving
- Local Giving
- Crowdfunder
- Givey
- Total Giving

Peidiwch ag anghofio os ydych yn drethdalwr yn y DU gallwch wneud y mwyaf o'ch rhodd trwy Rodd Gymorth os yw'r mudiad wedi'i gofrestru.

RHOI WRTH SIOPA

Os na allwch chi gyflwyno rhodd, beth am gymryd yr amser i drefnu rhai rhoddion awtomatig na fydd yn costio'r un geiniog i chi. Mae Cynlluniau fel Easyfundraising a Give As You Live yn cyflwyno rhoddion ar eich rhan bob tro rydych chi'n siopa gyda nhw ar-lein. Mae'n rhad ac am ddim a'r cwbl sydd angen i chi ei wneud yw creu cais cyflym i ddweud at bwy rydych chi am i'r arian fynd.

Postiadau awgrymedig ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

Bydden ni'n dwli cael eich help i gael mwy o bobl i gymryd rhan yn Wythnos Elusennau Cymru. Dyma rai postiadau awgrymedig y gallwch chi eu defnyddio ar gyfryngau cymdeithasol, mae croeso i chi eu haddasu, dim ond awgrymiadau yw'r rhain! Mae yna graffigau hefyd y gallwch chi eu defnyddio i fynd gyda'ch postiadau yn yr adran nesaf.

Gadewch i ni daflu goleuni ar waith anhygoel grwpiau nid-er-elw Cymru o bob lliw a llun, cymerwch ran yn #WythnosElusennauCymru - 9 - 13 Chwefror 2026 https://wythnoselusennau.cymru/

Mae 9 - 13 Chwefror yn #WythnosElusennauCymru. Ewch ati i gymryd rhan a helpu i gydnabod y gwaith y mae elusennau, mentrau cymdeithasol, mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn ei wneud yng Nghymru. https://wythnoselusennau.cymru/

Rhwng 9 - 13 Chwefror, mae'n #WythnosElusennauCymru – darganfyddwch sut gallwch chi gymryd rhan yn https://wythnoselusennau.cymru/

Dewch i ni wneud gwahaniaeth gyda'n gilydd yn ystod #WythnosElusennauCymru. Ewch ati i wirfoddoli, rhoi neu ddiolch i'ch hoff elusen neu grŵp gwirfoddol! 9 - 13 Chwefror https://wythnoselusennau.cymru/

Lawrlwythiadau

Facebook

Lawrlwythiadau



LinkedIn

Lawrlwythiadau

Stori

Lawrlwythiadau



Cefndir stori cyfryngau cymdeithasol



Poster



Cerdyn dyfyniad



Cefndir Zoom / Teams

Cefndir post sgwâr cyfryngau cymdeithasol

Banner ebost

Hefyd ar gael yn Saesneg yn welshcharitiesweek.cymru.